



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

10 Gorffennaf 2020

Cofnodion

Yn bresennol:		
Enw	Teitl	Sefydliad
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Rob Thomas (RT)	Rheolwr Gyfarwyddwr	Cyngor Bro Morgannwg
Wendy Gunney (WG)	Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
Nadia De Longhi (ND)	Rheolwr Gweithrediadau	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mike Evans (ME)	Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
Fiona Kinghorn (FK)	Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Emil Evans (EE)	Is-brifathro	Coleg Caerdydd a'r Fro
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Partneriaethau Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol	Llywodraeth Cymru
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Y Cyngorydd Mike Cuddy (MC)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref Penarth
Amanda Lewis (AL)	Dirprwy Bennaeth De Cymru Un	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Clive Curtis (CC)	Rheolwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Hefyd yn bresennol:		
Tom Bowring (TB)	Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Joanna Beynon (JB)	Swyddog Polisi	Cyngor Bro Morgannwg
Ymddiheuriadau:		
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS)
Chris Hadfield (CH)	Rheolwr Grŵp	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Y Cynghorydd Neil Moore (NM)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Paula Ham (PH)	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg
Len Richards (LR)	Prif Weithredwr	BIP Caerdydd a'r Fro
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd y BIP	BIP Caerdydd a'r Fro
Mark Cadman (MC)	Rheolwr Gweithrediadau Ambiwllans, Ardaloedd Caerdydd a'r Fro	Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
Anne Wei	Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol	BIP Caerdydd a'r Fro

	Camau Gweithredu
<p>1. Croeso a chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd MB bawb i gyfarfod rhithwir cyntaf y BGC ac amlinellodd sut i gymryd rhan yn y cyfarfod.</p>	
<p>2. Ymddiheuriadau</p> <p>Gweler uchod.</p>	
<p>3. Munud o Dawelwch</p> <p>Cynhaliwyd munud o dawelwch gan bawb a oedd yn bresennol er cof am y bywydau a gollwyd oherwydd COVID-19.</p>	
<p>4. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd</p> <p>Dywedodd MB wrth y grŵp fod swyddi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu penodi bob blwyddyn. Gan na dderbyniwyd unrhyw enwebiadau newydd ac roedd NM a MB yn hapus i gael eu hailbenodi fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y drefn honno, cytunodd y BGC i ailbenodi.</p>	
<p>5. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 28 Chwefror 2020</p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.</p>	
<p>6. Adroddiad Blynyddol Drafft 2019/2020</p> <p>Diolchodd TB i bartneriaid a chydweithwyr am eu gwaith ac am y sylwadau sydd wedi llywio'r adroddiad drafft. Mae'r adroddiad blynyddol eleni wedi cael ei ddatblygu yn Microsoft Sway i wneud yr adroddiad yn fwy difyr. Tynnodd TB sylw at ddiben a braslun yr adroddiad gan nodi bod pob un o'r pedair blaenoriaeth a gytunwyd yn flaenorol gan y BGC yn parhau'n flaenoriaeth yn 2020/2021 gyda'r flaenoriaeth i ehangu bancio amser i gael ei ymestyn i gynnwys ffocws ehangach ar wirfoddoli o ganlyniad i'r cynnydd yn y gwirfoddoli sy'n digwydd ar hyn o bryd ar draws y Fro. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu Cyngor Bro Morgannwg yr wythnos nesaf i'w ystyried.</p>	

<p>Roedd y BGC yn hapus gyda chynnwys yr adroddiad, yn cefnogi fformat Sway ac yn cytuno i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.</p>	
<p>7. Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda Caerdydd a'r Fro</p> <p>Ailgyflwynodd FK y Cynllun i'r BGC yn dilyn ei gwblhau yn gynharach eleni. Y bwriad gwreiddiol oedd lansio'r cynllun ar 30 Mawrth gyda ffocws ar ysgolion. Fodd bynnag, roedd hyn wedi'i ohirio oherwydd COVID-19 a gofynnodd FK i'r BGC gytuno ar ymagwedd newydd ar gyfer y lansiad. Amlinellwyd dau opsiwn ar gyfer ail-lansio 1) parhau i ohirio lansiad y cynllun tan ddechrau tymor yr ysgol ym mis Medi 2020 a chael lleoliadau addysgol fel thema'r lansiad a'r gweithredu neu 2) lansio'r cynllun ar 27 Gorffennaf 2020 gyda themâu amgen: gan gael teithio'n iach, gweithleoedd iach a chymunedau iach fel themâu'r lansiad a'r gweithredu. Mae manylion ychwanegol ac amserlenni ar gyfer y ddau opsiwn ar gael ym mhapurau'r cyfarfod.</p> <p>Awgrymodd ND ail-lansiad cyfunol gan ailffocysu ar opsiwn 2 ac ail ymgyrch ym mis Medi trwy ysgolion. Hefyd gofynnodd ND am fwy o fanylion am y swyddi ataliol i helpu i gryfhau gwaith gyda phartneriaid. Cytunodd FK i ail-ddosbarthu papur arian atal gyda mwy o fanylion i'r BGC gan fod rhywfaint o'r arian atal yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r gwaith hwn. Dywedodd RT wrth y BGC fod yr awgrym i gyfuno'r opsiynau ar gyfer ail-lansio wedi cael ei drafod gan Dîm Rheoli Corfforaethol (TRhC) y Cyngor pan gyflwynwyd y cynigion i'r TRhC yn gynharach y bore hwnnw. Cafodd yr ail-lansiad cyfunol lawer o gefnogaeth gan bartneriaid am ei fod yn caniatáu i waith gael ei wneud dros yr haf i ymgysylltu â chymunedau a sefydliadau ac yna ail ymgyrch ym mis Medi drwy ysgolion. Croesawodd FK yr awgrym hwn a'r ail-lansiad dau gam gyda ffocws ar opsiwn dau dros yr haf a chytunwyd ar weithredu opsiwn un ym mis Medi gan y BGC.</p> <p>Nododd JC wrth drafod dychwelyd i'r gweithle fod rhaid i ni ochel rhag cymysgu negeseuon a pheidio ag awgrymu y bydd pawb yn mynd yn ôl i swyddfa gan fod gweithio gartref wedi creu nifer o fanteision megis lleihau allyriadau carbon a chynyddu prynu'n lleol. Cytunodd FK ac AH â hyn a lleisio ei bod yn bwysig manteisio ar y manteision a'r cymorth i bobl a chipio'r manteision hyn tra'n deall na fydd yn mynd yn ôl i'r hen drefn. Cytunodd y BGC nad oedd angen newid nac ailgyhoeddi'r cynllun i adlewyrchu'r newid hwn, ond byddai'n fuddiol pe bai modd tynnu sylw pellach at y newidiadau yn y ffordd rydym yn gweithio, cael mynediad at wasanaethau ac ati drwy ohebiaeth y lansiad.</p>	<p>FK</p> <p>FK</p>
<p>8. Trawsnewid Gofal Brys</p> <p>Cyflwynodd AH fenter newydd a ddatblygwyd i wella'r ffordd y mae trigolion yn defnyddio'r system gofal heb ei drefnu. Er y bu pryderon ynghylch y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynd i unedau damweiniau ac achosion brys a chyflwyno'n hwyr, yn gyffredinol mae'r gostyngiad wedi digwydd gan bobl nad oes angen gofal cyflym arnynt, sydd â mân broblemau meddygol ac sydd bellach yn chwilio am fathau mwy priodol o gymorth.</p> <p>Gan na fyddai'n bosibl darparu ar gyfer yr un nifer o gleifion yn yr uned Damweiniau ac Achosion Brys â chyn Covid-19 wrth gadw pellter cymdeithasol, datblygwyd model gofal newydd sy'n cynnig llwybrau amgen i ofal. Enw'r gwasanaeth newydd yw CAF 24/7, gall pobl ffonio rhif ffôn y gwasanaeth pan nad oes argyfwng (0300 10 20 247) ac yna bydd yr achos yn cael ei brysennu i'r gofal mwyaf priodol. Bydd y gwasanaeth newydd yn caniatáu i bobl yng Nghaerdydd a'r Fro fanteisio ar y gwasanaeth mwyaf priodol yn gyflymach. Anogir adborth gan bartneriaid a staff am y gwasanaeth gan fod hwn yn wasanaeth</p>	

<p>newydd a chaiff y model ei ddiweddarau yn ôl yr angen yn seiliedig ar adborth. Bydd gwaith yn parhau gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) ar y model wrth symud ymlaen i sicrhau mai dim ond y rheini sydd angen gwasanaeth YGAC sy'n ei gyrchu. Anogodd AH y BGC i helpu i hyrwyddo'r wasanaeth yn arbennig, i helpu i gyfathrebu rhif cyswllt y gwasanaeth newydd i'r cyhoedd.</p> <p>Dyweddodd HJ wrth y grŵp fod pobl ifanc yn ffordd ragorol o helpu i rannu gwybodaeth am y gwasanaeth newydd a newid ymddygiad ac awgrymwyd y dylai'r BIP ystyried hyrwyddo'r gwasanaeth drwy ysgolion mewn rhaglen allgymorth.</p> <p>Holodd JC a oedd targed wedi'i osod ar gyfer y model newydd ac a fyddai'r gwasanaeth yn ystyried materion trafndiaeth ar gyfer rhai defnyddwyr gwasanaeth a allai fod yn byw mewn ardaloedd gwledig neu nad ydynt yn gallu cael mynediad at drafndiaeth. Dywedodd AH wrth y BGC nad oedd unrhyw darged wedi'i bennu, ond unwaith y cytunwyd ar un, bydd yn cael ei rannu â'r BGC a dywedodd y byddai trafndiaeth i gleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys yn allweddol.</p> <p>Roedd y BGC yn cefnogi'r gwasanaeth newydd a chytunodd y partneriaid i helpu i hyrwyddo'r gwasanaeth a'r rhif ffôn trwy rwydweithiau a sianeli cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Nodyn: Yn dilyn y cyfarfod, dosbarthwyd rhagor o wybodaeth gan AH mewn ymateb i'r ymholiadau a godwyd ac fe'i cynhwyswyd gyda'r cofnodion.</p>	<p>Pawb</p>
<p>9. Dysgu oddi wrth y Coronafeirws</p> <p>Amlinellodd MB y negeseuon allweddol mewn llythyr a dderbyniwyd gan Gadeiryddion BGC, gan Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ym mis Mehefin 2020 ynghylch rôl BGC yn y gwaith adfer. Dyma gyfle sy'n wahanol i unrhyw un arall i feddwl yn sylfaenol am y ffordd yr ydym yn gweithredu ac i drawsnewid. Dywedodd y BGC y byddai'n bwysig i'r Fforymau a'r Byrddau partneriaeth amrywiol ddeall y cysylltiadau rhwng gwaith a phwy sy'n gyfrifol am beth, gan gynnwys bod yn glir ynglŷn â beth yw ffocws y BPRh a beth mae'r BGC yn gyfrifol amdano er mwyn osgoi dyblygu, er enghraifft.</p> <p>Amlinellodd y BGC newidiadau sylweddol a wnaed a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu sefydliadau o ganlyniad i COVID-19. Tynnodd FK sylw at y ffaith bod anghydraddoldebau yn y boblogaeth yn ehangu a bod gwaith ar wirfoddoli, bancio amser, Symud Mwy Bwyta'n Well ac ati yn gallu bod yn ffyrdd pwysig o fynd i'r afael â hyn. Dywedodd TB wrth y BGC fod y Cyngor wedi cynnal dadansoddiad ar effeithiau economaidd COVID-19 ar y Fro a'i fod wedi cychwyn ar waith i edrych ar yr effeithiau ar gymunedau. Gellir rhannu'r dogfennau hyn gyda'r BGC yn y dyfodol.</p> <p>Mae newidiadau sefydliadol sylweddol a drafodwyd gan bartneriaid BGC yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio ystwyth ac o bell – mwy o hyblygrwydd wedi'i gefnogi gan TG • Mwy o wasanaethau ar-lein e.e. addysgu a chlinigol • Mabwysiadu dulliau amrywiol o gynnal cysylltiad â chwsmeriaid e.e. ymweliadau ar stepen y drws • Hyblygrwydd staff • Gwasanaethau newydd e.e. hybiau gofal plant, timau argyfwng • Gostyngiad mewn gweithgareddau ataliol, amddiffyn ac addysg • Model cyflenwi eithriadol • Arloesi (i eraill dim gallu i wella gwasanaethau) • Ail-gyllidebu 	<p>TB</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Strwythurau rheoli / penderfynu llyfn • Ffocws ar lesiant staff • Ymgysylltu a chyfathrebu <p>Dyweddod HJ fod cyfle gan y BGC i adolygu'n feirniadol yr hyn a fu'n llwyddiannus a'r hyn sydd wedi bod yn heriol i ddarganfod beth y gallwn ei gyflawni ar y cyd. Gallai hyn hefyd fod yn gyfle i fyfyrto eto ar ddaearyddiaeth y BGC gan fod anghydraddoldebau o ran tlodi yn bresennol y tu allan i'r Fro, er enghraifft mae Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf yn cydweithio ar hyn o bryd i nodi meysydd o fudd i'r ddwy ohonynt i weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd. Cytunodd FK gyda barn HJ a defnyddiodd y gwaith POD fel enghraifft o waith ardderchog ar draws ardaloedd.</p> <p>Awgrymodd RT y gallai'r BGC gynnal rhywfaint o ddadansoddi yn erbyn y Cynllun Llesiant i archwilio a yw'r camau gweithredu yn y Cynllun yn ddilys o hyd a beth fyddai'r blaenoriaethau posibl nawr. Yna gall y dadansoddiad SWOT lywio trafodaethau yn y dyfodol ar strwythurau a meysydd gwaith. Nododd RT hefyd fod y sesiynau arddull cynhadledd a gynhaliwyd yn flaenorol gan y BGC ar newid yn yr hinsawdd a theithio iach wedi bod yn ddefnyddiol iawn ac y gellid eu defnyddio'n fwy i symud i ffwrdd o arddulliau cyfarfod traddodiadol i fforymau trafod. Roedd TB yn cefnogi'r awgrym i gynnal ymarfer mapio yn erbyn yr amcanion Llesiant ac awgrymodd y dylid trefnu is-gyfarfod BGC ychwanegol ym mis Medi pan fydd mwy o ddata ar gael i ddiweddarau'r sylfaen dystiolaeth er mwyn helpu i nodi'r meysydd y gall y BGC ganolbwyntio arnynt. Cytunodd y BGC i drefnu is-gyfarfod ym mis Medi ac i gynnal yr ymarfer dadansoddi'r Cynllun Llesiant.</p>	TB
<p>10. Y Flaenraglen Waith</p> <p>Tynnodd TB sylw at y rhestr o eitemau agenda posibl a chytunodd i edrych ar y flaenraglen waith i gynllunio agendâu'r dyfodol.</p> <p>Bydd y potensial i gynnal mwy o sgysiau rhithwir ac i ddefnyddio lleoliadau mwy ar gyfer cyfarfodydd sy'n cadw at fesurau cadw pellter cymdeithasol yn y dyfodol hefyd yn rhan o'r gwaith blaengynllunio ar gyfer y BGC.</p>	TB
<p>11. Unrhyw Fater Arall</p> <p>Ni thrafodwyd unrhyw fusnes ychwanegol.</p>	
<p>12. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 9 Hydref 2020, 10:00am – 12:00pm</p>	